# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 19 Ionawr 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI’R PENDERFYNIAD** | 22 Ionawr 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 29 Ionawr 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd

**PWNC** Casgliadau Gwastraff Gardd

**PENDERFYNIAD –**
Cymeradwyo newid tymor casgliad gardd o ddechrau mis Chwefror hyd ddiwedd mis Tachwedd a chymeradwyo ffi o £37 y bin ar gyfer 2024.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau’r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Roland Thomas - Pennaeth Cynorthwyol - Amgylchedd |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 19.12.23 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :** Casgliadau Gwastraff Gardd

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cymeradwyo newid tymor casgliad gardd o ddechrau mis Chwefror hyd ddiwedd mis Tachwedd a chymeradwyo ffi o £37 y bin ar gyfer 2024.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Gweler isod


**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad**

Mae casgliad gwastraff gardd yn un o'r gwasanaethau sydd yn cael ei gynnig gan y Gwasanaeth Casglu ac Ailgylchu, Adran yr Amgylchedd. Ers 2016 codir ffi ar drigolion Gwynedd am gasglu'r biniau yma, ac mae tua 16,500 o gartrefi'r flwyddyn yn prynu'r gwasanaeth.

Mae'n wasanaeth sydd yn cael ei ddarparu am 12 mis y flwyddyn ac fe gesglir y biniau brown pob bythefnos. Mae'r Cyngor yn ailgylchu'r gwastraff a gesglir, ac mae'r % yma yn cyfrannu at y targed ailgylchu cenedlaethol.

Oherwydd y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu, mae'r cerbydau yn gorfod ymweld â phob tŷ sydd wedi talu am y casgliad. Yn aml iawn yn ystod misoedd y gaeaf mae'r cerbydau yma yn gwneud siwrneiau gwag, oherwydd nad yw trigolion yn cyflwyno eu biniau. Yn amlwg mae hyn yn wastraff o adnoddau o ran costau cyflogi a chostau rhedeg cerbydau. Nid yn unig byddwn yn gwario ein arian yn fwy darbodus, ond byddwn hefyd yn lleihau ein allyriadau carbon drwy beidio â theithio teithiau gwag.

Ar gyfer tymor 2024, rydem wedi adolygu cyfaint y tunelledd a gesglir pob mis ac wedi dod i benderfyniad i leihau'r casgliadau o 12 mis i 10 mis, ond parhau i gasglu pob bythefnos. Yn amlwg mae'r cyfaint sydd yn cael ei gasglu yn dymhorol, ac mewn blwyddyn mae'r Cyngor yn casglu tua 6,700 tunnell o wastraff gardd gan ein trigolion. Rydem wedi dadansoddi mai tua 7% yn unig o hyn a gesglir yn ystod ym misoedd Rhagfyr ac Ionawr (graff drosodd).




Felly am eleni rydem am dreialu casglu gwastraff gardd o 1af o fis Chwefror hyd at 30ain o fis Tachwedd. Cydnabyddir y bydd hyn yn creu anhawster i rai o'n trigolion, ond mae posibl parhau i allu ailgylchu gwastraff gardd drwy ddefnyddio un o'n wyth canolfan ailgylchu sydd yng Ngwynedd. Rydem yn symud at batrwm tymhorol sy'n cael ei ffafrio gan nifer o awdurdodau eraill Cymru erbyn hyn.

Mae'r ffi wedi cynyddu efo chwyddiant ers 2016, ond oherwydd ein bod yn bwriadu lleihau'r tymor casglu eleni, argymhellir cadw'r ffi'r un peth a'r llynedd ar **£37 y bin**. Teimlir fod y ffi yma yn deg am y gwasanaeth, mae'n gweithio allan tua £1.70 y casgliad, ac yn gymharol efo awdurdodau eraill yng Nghymru.

Mi fydd y 'bwlch' cyllidol o beidio cynyddu'r ffi efo chwyddiant yn cael ei gyfarch yn yr arbedion a geir o beidio casglu (teithio a.y.b.) a ffioedd gwaredu gwastraff gardd.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Aelod Cabinet

---

**Prif Swyddog Cyllid:**
"Rwyf yn fodlon fod lefel y ffioedd ar gyfer 2024/25, a'u hoblygiadau ar y gyllideb, wedi bod yn destun ystyriaeth fanwl. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

**Swyddog Monitro:**
Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad gan nodi fod yr adran wedi darparu ar gyfer trosi i'r amserlen newydd

---